# CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
# SEREMONI SEFYDLU'R MAER
# CYNHALIWYD AR 3ydd O FAI 2024

Llywyddwyd Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Caerfyrddin a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol, Caerfyrddin, ddydd Gwener 3ydd o Fai 2024, am 6.30 pm, gan y Maer, y Cynghorydd Wyn Thomas.

**PRESENNOL**: Cynghorwyr: Heledd ap Gwynfor, Tom Defis, Peter Hughes Griffiths, Gareth John, Andy King, Alun Lenny, Arwel Lloyd, Ioan Matthews, Emlyn Schiavone, Russell Sparks, Jeff Thomas, Wyn Thomas, Barry Williams, a Luned Voyle.

## 1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dai Evans, Angharad Jones Leefe, Miriam Moules, Aled Williams.

## 2. Anogaeth Agoriadol

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths.

## 3. Anerchiad y Maer sy'n Ymddeol

Croesawodd y Maer oedd yn ymddeol, y Cynghorydd Wyn Thomas bawb i'r seremoni.

Amlinellodd y Cynghorydd Wyn Thomas rai o'i huchafbwyntiau personol o'i flwyddyn fel Maer.

"Mae wedi bod yn anrhydedd ac yn bleser enfawr i gael bod yn Faer Caerfyrddin yn ystod y flwyddyn.

Diolch i'r Faeres, Sylvia Perkins, am fod yn gefen i mi ac am ei chwmni yn yr holl ddigwyddiadau.

Hefyd diolch i'r Parch Beti Wyn James, fy Nghaplan am bob cefnogaeth a help.

Yn anffodus mae Beti Wyn yn ymddiheirio nad yw hi gyda ni heno oherwydd bod y dyddiad wedi newid ar fyr rybudd, ac mae ganddi drefniadau eraill. Byddai wedi lico bod yma.

Yn ystod y flwyddyn rwy wedi ymweld a thros 90 o ddigwyddiadau yn ogystal ag o leiaf tri chyfarfod o'r cyngor bob mis. Rwy wedi mwynhau nhw i gyd.

Diolch am y croeso.

Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Faer, Emlyn Schiavone, a'r Siryf, Heledd ap Gwynfor am eu cefnogaeth ynghyd a'm cyd gynghorwyr ar y Cyngor – Diolch am eich gwaith.

Draft

Hefyd diolch i Eleri James, ysgrifenyddes y Maer am helpu i wneud fy nghwaith yn effeithiol a phleserus a chadw trefn ar fy nyddiadur.

Hefyd diolch i Emma Smith, ein Clerc, Wendy Dickson, Dirprwy Glerc, ac i holl aelodau staff y Cyngor am eu gwaith caled.

Yn ystod mis Hydref trefnodd Sylvia Noson o Gawl a Chân yng Nghlwb y Cwins. Diolch i'r artisitiaid am roi o'u hamser am ddim, ac i bawb fu'n helpu. Codwyd £2,500 a rhoddwyd £1,000 i Uned Cancr y Fron Llanelli, £500 yr un i Adran Arennau Glangwili, Adran Chemotherapy Glangwili a Prostrate Cymru. Braf gweld wythnos dathlu Gŵyl Dewi Sant yn mynd o nerth i nerth. Yn wir eleni roedd mwy o bobol yn y Pared nag erioed.

Un o'r digwyddiadau rhoddodd bleser arbennig i mi oedd seremoni apwyntio Helen Jones yn Uwch Siryf Dyfed ym mis Mawrth. Mae Helen gyda ni heno llongyfarchiadau iddi.

Dydd Llun nesaf bydd ras flynyddol y Maer drwy strydoedd Caerfyrddin yn cael ei chynnal. Bydd £500 yr un yn cael ei gyflwyno i 6 o elusennau lleol cyn diwedd y mis. Diolch yn arbennig i Noelwyn a Sharon Daniel. Diolch hefyd i'r noddwyr, staff y cyngor, yr holl wirfoddolwyr a Phwyllgor Elusen y Maer am bob help.

Swydd bwysig sydd yn perthyn i'r Maer yw Llyngesydd Porthladd Caerfyrddin (Admiral of the Port).
Buom eto eleni ar ein mordaith flynyddol lawr yr afon i Glanyfferi.
Mae Caerfyrddin yn lwcus iawn o'r gwaith da mae gwirfoddolwyr ymhob maes yn eu gwneud.

Ni'n ffodus yng Nghaerfyrddin i gael Pwyllgor Elusen y Maer effeithiol iawn i godi arian i elusennau lleol ar ran y Maer. Eleni codwyd dros £6,000 a rhannwyd yr arian i lu o elusennau lleol. Nos Fawrth cynhaliwyd Sioe Ffasiynau gan y Pwyllgor. Gwnaed elw o £1,800. Diolch i Helen Thomas am drefnu, i Ian a phawb arall o'r pwyllgor. Diolch i'r Cadeirydd, Ian Williams a phob Aelod o'r pwyllgor am eich gwaith caled.
Mae eu gwaith caled a'u hymrwymiad yn wych. Daliwch ati, hebddo chi ble bydde ni.

Eleni, roedd golau Nadolig Tref Caerfyrddin y gorau yn y gorllewin. Diolch eto i staff y Cyngor Tref.

Mae wedi bod yn bleser ac anrhydedd mawr i fod yn Faer Caerfyrddin.

Dymuniadau Gorau i'r Cynghorydd Emlyn Schiavone, Maer Tref Caerfyrddin yn y flwyddyn gyfredol".

Draft

**4. Ethol Maer Tref Caerfyrddin am 2024/25 a'r Datganiad o Dderbyn Swydd.**

Ar gynnig y Cyng. Arwel Lloyd, eiliwyd gan y Cyng. Jeff Thomas, **PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Emlyn Schiavone yn Faer Tref Caerfyrddin am y flwyddyn 2024/2025.

Darllenodd ac arwyddodd y Maer newydd, Cyng. Emlyn Schiavone y datganiad o dderbyn y swydd. Arwisgodd y Maer newydd gyda'i gadwyn o swydd gan y Cyng. Wyn Thomas.

**Y Cyng. Emlyn Schiavone, yn llywyddu.**

Gwnaeth y Cyng. Emlyn Schiavone adrodd ac arwyddo Llw'r Morlys.

Diolchodd y Cynghorydd Emlyn Schiavone i'r holl Aelodau am eu ffydd ynddo gan ddatgan ei bod yn anrhydedd ac yn bleser cael ei ethol yn Faer Caerfyrddin a'i fod yn edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod.

Penododd y Cyng. Emlyn Schiavone y Parchedig Beti-Wyn James, Gweinidog Capel Priordy, Caerfyrddin, yn Gaplan y Maer .

Penododd y Cyng. Emlyn Schiavone, Mrs Tina Schiavone yn Faeres iddo.

Buddsoddodd y Maeres sy'n ymddeol, Mrs Sylvia Perkins, y Faeres newydd gyda'i chadwyn.

**5. Ethol Dirprwy Faer ar gyfer 2024/25 a'r Datganiad o Dderbyn Swydd.**

Ar gynnig y Cyng. Ioan Matthews, eiliwyd gan y Cyng. Tom Defis, **PENDERFYNWYD** bod y Cyng. Heledd ap Gwynfor yn cael ei ethol yn Ddirprwy Faer ar gyfer 2024/25.

Darllenodd ac arwyddodd y Cyng. Heledd ap Gwynfor y datganiad o dderbyn y swydd.

Gwnaeth y Maer, y Cyng. Emlyn Schiavone arwisgo'r Cyng. Heledd ap Gwynfor gyda chadwyn y swydd.

**6. Ethol Siryf y Dref ar gyfer 2024/25 a Datganiad o Dderbyn Swydd.**

Ar gynnig y Cyng. Alun Lenny, eiliwyd gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths, **PENDERFYNWYD** bod y Cyng. Russell Sparks yn cael ei benodi yn Siryf y Dref ar gyfer 2024/25.

Darllenodd ac arwyddodd y Cyng. Russell Sparks y datganiad o dderbyn y swydd.

Draft

**7. Pleidlais o Ddiolch i'r Maer sy'n Ymddeol**

Ar gynnig y Cyng. Peter Hughes Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Barry Williams, **PENDERFYNWYD** diolch i'r Maer oedd yn ymddeol, y Cyng. Wyn Thomas, am ei cyflawniadau fel Maer yn ystod y flwyddyn.

**8. Sul y Maer**

Diolchodd y Maer i bawb am fynychu a chyhoeddodd y byddai ei Wasanaeth Dinesig yn cael ei gynnal ar ddydd Sul 9fed o Fehefin am 10.30 yng Nghapel y Priordy.

**9. Gweddi i Gloi.**

Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi gan y Cyng. Luned Voyle.

**Gohiriwyd y cyfarfod tan Nos Fercher 22ain o Fai am 7:30 yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin**.

**Caewyd y cyfarfod am 7:25 yh.**

Draft